SKSG12

Tracio a swingio craeniau a breichiau jib

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â gweithredu craeniau a breichiau jib yn ddiogel a, phan fo angen, tracio'r holl adeiladwaith.

Mae'n ymwneud â deall cyfyngiadau rigiau o fewn eu hamgylchedd weithio, cydymffurfio â chanllawiau'r diwydiant a chynnal asesiadau risg.

Mae'r safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n tracio a swingio craeniau neu freichiau jib.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Gwirio'r gwaith cydosod a sicrhau fod tystysgrifau diogelwch perthnasol yn ddilys

2 Symud camerâu mewn symudiad llyfn yn unol â gofynion cyfarwyddwyr neu weithredwyr camerâu bob amser

3 Amseru symudiadau i gyd-fynd â gofynion y siot

4 Adnabod symudiadau sydd y tu hwnt i allu'r offer neu a gyfyngwyd gan y bobl sydd ar gael

5 Adrodd am gyfyngiadau wrth staff cynhyrchu perthnasol a cheisio a chyflwyno atebion dichonadwy

6 Rhoi hysbysiad clir o lwybrau bwriedig craeniau neu jibiau i bob person perthnasol

7 Gwirio fod llwybrau'n rhydd o bobl nad ydyn nhw'n hanfodol, ceblau a rhwystrau eraill

8 Cyfathrebu gyda phobl eraill mewn modd sy'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y symudiadau

9 Sicrhau craeniau a jibiau yn unol â gweithdrefnau gweithredu cyn i unrhyw bersonél fynd ar y peiriant neu oddi arni, gan gytuno o'r ddeutu ar bob symudiad o'r fath gydag unrhyw weithredwyr eraill

10 Cymryd camau addas i sicrhau nad oes neb yn dod oddi ar y craeniau a jibiau cyn iddynt dderbyn cyfarwyddyd i wneud hynny gan weithredwyr y craen

11 Gwirio fod craeniau a jibiau bellter diogel i ffwrdd o unrhyw geblau foltedd uchel

12 Gwirio fod cyflymder y gwynt o fewn i gyfyngiadau gweithredol craeniau a jibiau

13 Sicrhau fod gweledegdd da i ddau ben y craen neu'r breichiau jib bob amser ac nad oes dim rhwystrau, personél na rhwystrau eraill yn ystod y cyfnod defnyddio

14 Gwiriwch fod offer ac ategolion wedi'u gosod yn parhau'n ddiogel ac yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth, canllawiau ac arfer gorau ar gyfer eu defnydd

15 Darparu asesiadau risg i'r tîm cynhyrchu yn unol â gofynion iechyd a diogelwch

16 Gweithredu craeniau neu freichiau jib yn unol `â deddfwriaeth a chanllawiau presennol

17 Sicrhau a gwarchod offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth berthnasol, canllawiau ac arfer orau'r diwydiant

2 Y ffordd gywir o gydosod craeniau a breichiau jibiau

3 Sut i gael tystysgrifau diogelwch

4 Sut i werthuso sadrwydd arwynebeddau ble bydd y craeniau a'r breichiau jib yn cael eu mowntio

5 Egwyddorion gweithredu craeniau, jibiau ac offer tracio

6 Ystyriaethau diogelwch unrhyw offer tracio

7 Cyfyngiadau lleoliadol yr offer sy'n cael ei ddefnyddio

8 Manteision gwaith tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

9 Sut i gynnal asesiadau risg ac i bwy y dylid cyfathrebu'r canlyniadau

10 Sut y mae cyflymder y gwynt yn effeithio ar ddefnydd o graeniau a jibiau

11 Pellterau gweithio diogel oddi wrth geblau foltedd uchel

12 Sut i gynnal gwelededd dau ben y craen neu'r breichiau jib

13 Sut i wirio fod offer ac ategolion a osodwyd yn ddiogel a sicr

14 sut i sicrhau nad oes neb yn mynd ar y craeniau na'r jibiau, nac yn dod oddi arnynt, oni bai fod ganddynt awdurdod i wneud.

15 Sut i ddiogelu craeniau a jibiau pan nad ydynt ar waith

16 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

Tracio a swingio craeniau a breichiau jib

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG12
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Craneiau, Tracio, Iechyd a diogelwch, Breichiau jib